



wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru



Ghazalaw, WOMEX 13 (llun:Eric Van Nieuwland)

Strategaeth 5 mlynedd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

2013 - 2018

Ionawr 2015



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yw adain ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Ein hamcan . . .

galluogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol o safon uchel yng Nghymru i wireddu eu huchelgais ryngwladol drwy ehangu gorwelion, sbarduno talent a chysylltu â phartneriaid ysbrydoledig a marchnadoedd allweddol.



Save Your Breath, SXSW 2014

Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf?

Bydd meithrin a chynnal perthnasau a phartneriaethau yn rhyngwladol wrth galon ein gwaith.

Gan ddilyn pennod ryngwladol dogfen Cyngor Celfyddydau Cymru, *Ysbrydoli: ein strategaeth ar gyfer Creadigrwydd a'r Celfyddydau yng Nghymru*, daw ein gwaith rhyngwladol o dan dri phennawd cyffredinol:

Creu . . . Cefnogi'r broses o greu celfyddyd arbennig yng Nghymru a'i gysylltu â gweddill y byd.

Cyrraedd . . . y tu hwnt i Gymru i'r byd a dod â'r gorau o'r byd i Gymru.

Cynnal . . . rhyngwladoli'r celfyddydau yng Nghymru mewn modd cynaliadwy.

I Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru bydd hyn yn golygu

- Cefnogi gwaith o safon ryngwladol yng Nghymru a thu hwnt sydd â chyrraedd iad a pherthnasedd rhyngwladol.
- Cyrraedd cynulleidfaoedd newydd yng Nghymru a ledled y byd drwy gefnogi cyfleoedd i artistiaid o Gymru gydweithio â phartneriaid rhyngwladol.
- Arddangos artistiaid o Gymru ar lwyfannau ac mewn arddangosfeydd allweddol.
- Annog artistiaid i gynyddu eu defnydd o dechnoleg ddigidol i estyn allan at gynulleidfaoedd.
- Cynnal celfyddydau a diwylliant Cymru drwy feithrin gwaith rhyngwladol yng Nghymru a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd ar yr un pryd.

- Rhannu arbenigedd y tu mewn a thu hwnt i Gymru a chreu amgylchedd ar gyfer rhagor o waith yng Nghymru drwy gyfuno â phartneriaid yn y DU a thu hwnt.

Yn 2018 y nod yw bod

- Mwy o artistiaid sy'n gweithio yng Nghymru'n gallu cynnal eu gyrfa drwy wneud mwy yn rhyngwladol.
- Mwy o artistiaid o Gymru'n arddangos eu gwaith ar lwyfannau rhyngwladol allweddol.
- Mwy o gyd-brosiectau rhyngwladol yn digwydd yng Nghymru a hefyd yn rhyngwladol gydag artistiaid o Gymru.
- Mwy o artistiaid a chwmnïau o Gymru yn ymwneud â rhwydweithiau rhyngwladol.
- Mwy o gynnwys ar gael yn ddigidol ar gyfer cynulleidfaoedd ac archebwyr ledled y byd.
- Partneriaethau rhyngwladol estynedig yn cael eu datblygu i sicrhau bod artistiaid o Gymru yn weledol ar lwyfannau rhyngwladol allweddol.
- Ein gwaith â phartneriaid yn helpu i gynyddu buddsoddiad rhyngwladol yn y celfyddydau yng Nghymru.
- Rhagoriaeth a chreadigrwydd celfyddydau Cymru yn cyfrannu'n fawr at berthynas ddiwylliannol Cymru â gweddill y byd, wrth i fwy o gyfleoedd godi gyda dirprwyaethau masnach ryngwladol a mentrau perthnasol eraill gan lywodraeth.
- Cymru'n cael ei chydabod yn lle creadigol, egniol ac ysbrydoledig i fyw a gweithio ac i ymweld â hi.

Ar beth y byddwn ni'n canolbwyntio?

Gyda phwysau cynyddol ar ein hadnoddau cyfyngedig bydd hi'n bwysig inni flaenoriaethu perthnasau penodol a meysydd gwaith a fydd yn talu ar eu canfed, i'r artistiaid sy'n ymwneud â nhw yn ogystal ag i broffil creadigol Cymru. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar ddatgloi potensial rhyngwladol artistiaid a sefydliadau celfyddydol sydd eisoes ag enw da ac sydd â'r cymwysterau dilys i ddechrau neu i barhau i weithio'n rhyngwladol.

CREU: Tanio potensial celfyddydau o safon fyd-eang sy'n ysbrydoli cynulleidfaoedd yng Nghymru a ledled y byd.

Byddwn ni'n canolbwyntio ar gyflawni'r agweddau hyn ar ran ac ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru:

- Cefnogi artistiaid i gael gyrfaoedd rhyngwladol yng Nghymru.
- Cefnogi'r broses o greu a chyflwyno celfyddyd yng Nghymru sydd o'r radd flaenaf yn y byd.

- Helpu artistiaid a chwmnïau yng Nghymru i fod yn barod i allforio ac i gael cysylltiadau rhyngwladol da.
- Croesawu a chynnal digwyddiadau celfyddydol rhyngwladol i fod yn gatalydd i'r celfyddydau yng Nghymru.

Golyga hyn y byddwn yn cydweithio â'r artistiaid a'r bobl broffesiynol creadigol sy'n dangos y potensial mwyaf i ehangu eu gwaith yn rhyngwladol, drwy gydweithio â chwmnïau a phartneriaid sy'n gallu ein helpu i gyflawni'r amcanion hyn.

Byddwn yn:

- Cefnogi cyd-brosiectau ysbrydoledig a fydd yn tanio potensial artistiaid o safon fyd-eang yng Nghymru er mwyn iddynt ddatblygu eu gyrfaoedd rhyngwladol a chyflawni eu huchelgais artistig. Buddsoddi mewn cysylltiadau, cyd-brosiectau a sgysiau rhyngwladol i ddatblygu arferion artistig rhagorol, arloesol, sydd ar flaen y gad.



CINARS 2014

- Buddsoddi mewn rhwydweithiau a phartneriaethau artistig rhyngwladol yng Nghymru a thu hwnt i gynnig llwyfan a chyfleoedd i'r genhedlaeth nesaf o artistiaid yng Nghymru, gyda'r nod o feithrin uchelgais a hyder rhyngwladol gogyfer â'r dyfodol.
- Rhoi cyngor a mentoriaeth i'n cydweithwyr a'n partneriaid:
 1. Cyngor arbenigol ar ddulliau gwaith rhyngwladol i gydweithwyr yng Nghyngor Celfyddydau Cymru a'u portffolio blaenllaw o gwmnïau ac artistiaid.
 2. Cyngor ynghylch potensial rhyngwladol y celfyddydau yng Nghymru i Lywodraeth Cymru a'r Cyngor Prydeinig ac asiantaethau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.

CYRRAEDD: ysgogi cyfleoedd i ymwneud â'n celfyddydau yng Nghymru ac yn fyd-eang

Byddwn ni'n gwneud hyn drwy:

- Estyn allan i ddiwylliannau eraill yng Nghymru ac yn rhyngwladol drwy gefnogi cyd-brosiectau artistig sy'n cyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol.
- Datblygu cyfleoedd i waith ein hartistiaid gyrraedd marchnadoedd a chynulleidfaoedd newydd yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol – trwy ein "Cymru yn" (e.e. Fenis, Caeredin, SXSW, WOMEX, CINARS ac ati) ac "yng Nghymru" (WOMEX, Artes Mundi, BDE ac ati).
- Cyfrannu at waith celfyddydol ac addysgol Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru, a menter gysylltiedig Connected Classrooms y Cyngor Prydeinig. Byddwn yn parhau i rannu ac arddangos arfer orau rhyngwladol mewn meysydd allweddol, e.e. Tlodi Plant, Gŵyl Cymru ar gyfer

creadigrwydd pobl ifanc, Family Arts a Sbardun

- Defnyddio technolegau a llwyfannau newydd i sicrhau bod y celfyddydau yng Nghymru yn gallu cyrraedd cynulleidfaoedd ac archebwyr yn rhyngwladol drwy weithio gyda phartneriaid (Llywodraeth Cymru, y Cyngor Prydeinig, S4C, BBC, rhwydweithiau a phartneriaid Ewropeaidd)

CYNNAL ac ehangu'r celfyddydau yng Nghymru: meithrin cyfleoedd i gynnal gyrfaoedd rhyngwladol yng Nghymru

Y diffiniad o ddatblygu cynaliadwy a ddefnyddir gan Gyngor Celfyddydau Cymru yw:

Hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, yn lleol ac yn fyd-eang, a chreu ansawdd bywyd gwell ar gyfer ein cenedlaeth ein hunain a'r rhai sydd i ddod:

- *mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chydarddoldeb o ran cyfleoedd; ac*
- *mewn modd sy'n hyrwyddo'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei gyfyngiadau –gan ddefnyddio cyfran deg yn unig o adnoddau'r ddaear a chan gynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.*



Dr Frankenstein's Travelling Freak Show, Tin Shed Theatre Company (llun: Eminent photography)

Mae gan agwedd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru at Ddatblygu Cynaliadwy bedair agwedd:

diwylliannol:

- Drwy gefnogi cydweithio artistig byddwn yn annog sgysiau rhyngddiwylliannol;
- Drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destun rhyngwladol byddwn yn ceisio ymgysylltu ag ieithoedd a diwylliannau lleiafrifol i gynnal a dathlu diwylliannau lleiafrifol yng Nghymru ac yn rhyngwladol.

economaidd:

- Drwy roi cefnogaeth i gael mynediad at farchnadoedd newydd yn ein gweithgareddau arddangos byddwn yn rhoi cefnogaeth i artistiaid i gynnal gyrfaedd rhyngwladol yng Nghymru.
- Drwy ddatblygu partneriaethau newydd ac ymwneud â rhaglenni Ewropeaidd byddwn yn dod o hyd i fuddsoddiad rhyngwladol newydd i gynnal y celfyddydau yng Nghymru.
- Drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru i arddangos creadigrwydd a diwylliant wrth gyflwyno delwedd Cymru yn rhyngwladol i ddirprwyaethau masnach byddwn yn cyfrannu at greu economi greadigol gynaliadwy yng Nghymru.

amgylcheddol:

- Drwy roi ar waith gynllun gweithredu newydd Cyngor Celfyddydau Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy, ac annog artistiaid a chwmnïau yng Nghymru i ddefnyddio arfer dda, byddwn yn lleihau ein hól-troed amgylcheddol ac ar yr un pryd yn creu'r argraff bennaf.

- Drwy gefnogi artistiaid a phrosiectau i greu gwaith sy'n codi ymwybyddiaeth o heriau amgylcheddol ceisiwn ysgogi newid o ran arferion ac ymddygiad.

cymdeithasol:

- drwy gefnogi agweddau rhyngwladol ar brosiectau celfyddydol ym meysydd Pobl ifanc, Celfyddydau ac Addysg, Pobl hŷn a chymunedau gwledig byddwn yn cefnogi Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â Thlodi Plant a chael gwared ar rwystrau i gynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru.



BIANCO, NoFit State (llun: Mark Robson)

Sut byddwn ni'n gweithio?

Bydd ein rhaglen weithgareddau a'r partneriaid y byddwn yn gweithio â nhw yn cael eu pennu gan yr hyn sy'n gweddu i amcanion Creu, Cyrraedd a Chynnal, fel y'u deellir mewn cyd-destun rhyngwladol.

Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd ac mewn partneriaeth

Diolch i rwydwaith o gysylltiadau tymor hir a ddatblygwyd yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol, yn ogystal â chyfres o gysylltiadau a wneir yn gyson, mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn helpu i ddatblygu capasiti artistiaid yng Nghymru i ehangu eu cyfleoedd rhyngwladol.

Gweithiwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, y Cyngor Prydeinig ac asiantaethau eraill i wneud y mwyaf o'r buddiannau i'r celfyddydau yng Nghymru.



Lleuwen Steffan, WOMEX14 Santiago de Compostela

Pa gefnogaeth sydd ar gael?

Rhodddwn gymorth yn ogystal â chymorth ariannol.

Cyngor . . . Fel man gwybodaeth ar gyfer artistiaid a phartneriaid yng Nghymru ac yn rhyngwladol, rhodddwn gyngor arbenigol a chymorth ar agweddau rhyngwladol ar y celfyddydau yng Nghymru drwy ein cylchlythyr, Canfas, ac yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb mewn digwyddiadau. Diweddarwn wybodaeth yn rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol ac ar ein gwefan.

Cyngor . . . Rydym yn aelodau o rwydweithiau rhyngwladol allweddol er mwyn sicrhau bod gennym ni gysylltiadau da a bod gan y celfyddydau yng Nghymru'r cyfleoedd gorau. Cynrychiolwn Gymru mewn cyfres o ddiwyddiadau arddangos a rhwydweithio lle rhodddwn gyngor i artistiaid rhyngwladol a chynhyrchwyr.

Cyngor . . . Rydym yn cynnal ymchwil yn rheolaidd i gadw'n gyfoes gyda datblygiadau yng Nghymru ac yn rhyngwladol, i helpu i flaenoriaethu ein buddsoddiad yn strategol ac i sicrhau ein bod yn targedu'r cyfranogwyr cywir.

Cyngor . . . Drwy gyfrwng Fforwm Celfyddydau Ewropeaidd Cymru a Swyddfa Ewrop Greadigol yn Llywodraeth Cymru, rhodddwn gyngor a chymorth i sefydliadau celfyddydol i ymwneud â rhaglenni a chyfleoedd Ewropeaidd. opportunities.

Cyllid . . . Mae'r cymorth cyllid canlynol ar gael drwy gystadleuaeth i unigolion creadigol a chwmnïau.


- Hyd at £5,000 drwy ein Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol
<http://www.wai.org.uk/funding?diablo.lang=cym>

- Hyd at £30,000 drwy grantiau loteri bach a mawr Cyngor Celfyddydau Cymru. Gallwn ystyried cyllido peth gweithgaredd rhyngwladol fel rhan o brosiect ehangach a fydd yn rhoi Cymru ar ei hennill, os cyflwynir sail resymegol artistig, ariannol neu o ran busnes. Galwn y mathau o weithgareddau yr hoffwn gefnogi yn "llinyddau".

<http://www.artscouncilofwales.org.uk/what-we-do/funding/apply/unigolion?diablo.lang=cym>

<http://www.artscouncilofwales.org.uk/what-we-do/funding/apply/organisations?diablo.lang=cym>

- Rydym ni hefyd yn rheoli rhaglen flynyddol o brosiectau, mewn partneriaeth â'r Cyngor Prydeinig a Llywodraeth Cymru, mewn gwledydd blaenoriaeth y cytunir arnynt ar y cyd.



Cyfnod preswyl URRR Rachel Busby, Buenos Aires, Hydref 2014